



**Grŵp Cynefin**

Mwy na thai • More than housing

**Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol**

**Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024**

## **ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2024**

<b>CYNNWYS</b>	<b>Tudalen</b>
Manylion cyfreithiol a gweinyddol	3
Adroddiad y Bwrdd Rheoli	4
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	20
Datganiad Incwm Cynhwysfawr Cyfunol	25
Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Gymdeithas	26
Datganiad Sefyllfa Ariannol Gyfunol	27
Datganiad Sefyllfa Ariannol y Gymdeithas	28
Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn Cyfunol	29
Datganiad Newidiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn y Gymdeithas	30
Datganiad Llif Arian Cyfunol	31
Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Datganiad Ariannol	32

**MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL**

**SWYDDFA GOFRESTREDIG**

Tŷ Silyn  
Ffordd Llanllyfni  
Penygroes  
LL54 6LY

**AELODAU'R BWRDD RHEOLI**

Tim Jones	Cadeirydd	(penodwyd Medi 2023)
Carys Edwards	Cadeirydd	(ymddiswyddodd Medi 2023)
Siôn Fôn	Is-Gadeirydd (penodwyd Medi 2023)	
Elen Llwyd Williams	Is-Gadeirydd	(ymddiswyddodd 2023)
Dafydd Lewis		(ymddiswyddodd 2023)
Llinos Iorwerth		
Mike Corfield		
Jane Lewis		
John Antony Jones		(ymddiswyddodd Tachwedd 2023)
Geraint Wyn George		(ymddiswyddodd Rhagfyr 2023)
David Lloyd		
Nigel Finney		
Ken Beech		(cyfetholwyd Gorffennaf 2023)
Tony Oakley		(cyfetholwyd Gorffennaf 2023)
Delyth Lloyd		(cyfetholwyd Rhagfyr 2023)
Paul Robinson		(cyfetholwyd Rhagfyr 2023)
Sally Baxter		(cyfetholwyd Rhagfyr 2023)

**Y TÎM ARWEINYDDIAETH**

Melville Evans	Prif Weithredwr
Nia Rhian Owen	Cyfarwyddwr Adnoddau Grŵp Interim

**YSGRIFENNYDD Y CWMNI**

Helen Wyn Jones

**BANCWYR**

Barclays  
PO Box 3333  
One Snowhill  
Snowhill Queensway  
Birmingham  
B3 2WN

**ARCHWILYDD**

Beever and Struthers  
One Express  
1 George Leigh Street  
Manchester  
M4 5DL

**STATWS CYFREITHIOL**

Cofrestredig dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014  
Cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru, Rhif L029  
Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu rheolau elusenol

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Mae Cynllun Corfforaethol Grŵp Cynefin 2019-2024 yn gosod y cyfeiriad strategol fel â ganlyn:

### GWELEDIGAETH:

*Gwneud gwahaniaeth positif i fywydau a chymunedau*

### DATGANIAD CENHADAETH:

Bydd Grŵp Cynefin yn:

- Darparu cartrefi a gwasanaethau rhagorol
- Cyfrannu at ddatblygiad cymunedau cynaliadwy
- Gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg gyda balchder

### GWERTHOEDD

Mae Grŵp Cynefin yn ymwybodol bod gan ei werthoedd ddylanwad mawr ar ymddygiad ac agwedd staff. Mae Grŵp Cynefin wedi buddsoddi amser gyda staff i sicrhau bod ei werthoedd yn gosod sylfaen gadarn i'w gynorthwyo i wneud y penderfyniadau gorau mewn unrhyw sefyllfa, gyda'r holl rhanddeiliaid. Mae gwerthoedd Grŵp Cynefin yn cyd-fynd gyda'i weledigaeth a'i amcanion, a dyma un o'r prif ysgogwyr wrth sefydlu ei ddiwylliant.

- **Agored** - Tryloyw ag yn gwneud penderfyniadau. Barod i gydweithio er mwyn sicrhau y canlyniadau gorau.
- **Arloesi** - Blaengar ac yn barod i herio ein hunain er mwyn darganfod ffyrdd newydd o weithredu a darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.
- **Cefnogi** - Gweithio gydag angerdd i gefnogi ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n partneriaid yn ogystal â helpu ein cymunedau lwyddo.
- **Cyflawni** - Gweithredu'n broffesiynol gan ddefnyddio ein harbenigedd er mwyn sicrhau ffyniant y cwmni a'n pobl. Anelu am welliant parhaus a gwerth am arian bob amser.
- **Parch** - Parchu ein gilydd ag eraill, hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthod unrhyw ragfarn

### DIWYLLIANT

Y math o ddiwylliant a anogir drwy Grŵp Cynefin yw un lle mae'r cwsmer wrth graidd popeth sy'n cael ei wneud, lle gall pobl ymddiried yn ei gilydd, lle mae bod yn agored a thryloyw yn bwysig wrth wneud penderfyniad, lle dysgir gwersi o gamgymeriadau mewn modd nad yw'n ceisio canfod bai, lle mae bod yn garedig tuag at ein gilydd yn bwysig, lle mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwysig, a hyn oll wedi'i seilio ar drefniadau iechyd a diogelwch cadarn. Wrth symud ymlaen a chynllunio ar gyfer y dyfodol bydd Grŵp Cynefin yn adeiladu ar y gwerthoedd a'r diwylliant sy'n ei wneud, ynghyd ag aelodau ei Fwrdd Rheoli, yn gyflogwr arbennig.

### NODAU STRATEGOL 2023-24

Ym mis Mawrth 2023, fe wnaeth Grŵp Cynefin hunan-adrodd am risgiau a phryderon sylweddol mewn perthynas â gwasanaethau tenantiaid a llywodraethu, yn benodol mewn perthynas â sicrwydd cydymffurfiaeth, gan gynnwys diogelwch statudol a Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Roedd angen ymyrraeth reoleiddiol i sicrhau bod Grŵp Cynefin yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd, ac yn unol â'r safonau rheoleiddio. Roedd angen gwelliannau, a gweithiodd y Gymdeithas yn agos gyda'r Rheoleiddiwr i ddatblygu a chytuno ar gynllun gwella, ('Cynllun Gwella Busnes') a oedd yn cynnwys cynnal adolygiadau annibynnol o'i harweinyddiaeth a'i llywodraethu ar lefel Weithredol a Bwrdd, yn ogystal â gwelliannau ar unwaith i gydymffurfiaeth statudol. Diwygiwyd dyfarniad rheoleiddio Grŵp Cynefin (o 'Gwyrdd Cydymffurfio' ar gyfer Gwasanaethau Llywodraethu a Thenantiaid, a Hyfywedd Ariannol a ddyfarnwyd Rhagfyr 2022), i 'Ambr nad yw'n cydymffurfio' ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid' a 'Melyn Cydymffurfio' ar gyfer Hyfywedd Ariannol.

Ymrwymodd hefyd i Gytundeb Gwirfoddol ffurfiol ym mis Mai 2023.

Ym mis Mai 2024, cafodd Grwp Cynefin ei Ddyfarniad Rheoleiddio ei ddiwygio a'i ddiweddarau i 'Melyn Cydymffurfio' ar gyfer Hyfywedd Ariannol a Llywodraethu a Gwasanaethau i Denantiaid. Roedd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed dros y 13 mis diwethaf ar wella'r data a gadwir ar ein stoc a chael sicrwydd mewn chydymffurfio asedau gan arwain at berthnasoddedd cadarnhaol a chydweithio â'r Rheoleiddiwr a'n Cyllidwyr.

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

O ystyried y dyfarniad rheoleiddio diwygiedig, cytunodd y Bwrdd Rheoli ar amcan strategol ychwanegol ar gyfer 2023-24, sef '**Gweithredu ein Cynllun Gwella Busnes**': Bydd gennym wybodaeth Rheoli Asedau gyflawn, cywir ac amserol i'n cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch landlord, ac i ganiatáu cynllunio ariannol hirdymor effeithiol'.

Erys y pum nod strategol gwreiddiol ac fe'u hategir gan gyfres o gynlluniau gweithredu a dangosyddion y cytunwyd arnynt sy'n mesur y gwahaniaeth y bydd y Cynllun Corfforaethol yn ei wneud yn ystod oes y Cynllun:

- **Gweithredu ein Cynllun Gwella Busnes:** Bydd gennym wybodaeth gyflawn, cywir ac amserol i'n cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion y safonau rheoleiddio.
- **Cartrefi o Safon:** Byddwn yn darparu cartrefi fforddiadwy o safon uchel sydd yn diwallu anghenion lleol.
- **Gwasanaethau Rhagorol:** Byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion ein tenantiaid a'n cwsmeriaid yn gyson ar draws y grŵp
- **Gwella Bywydau:** Byddwn yn darparu cymorth a chyfleoedd i bobl.
- **Cynnal Cymunedau:** Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol a byddwn yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol
- **Twf Cadarn a Chynaliadwy:** Byddwn yn arddangos yr arferion arweinyddiaeth, llywodraethu a rheolaeth gorau fel Grŵp.

## CYFLAWNI STRATEGAETH GRŴP CYNEFIN

### Nod 1. Gweithredu ein Cynllun Gwella Busnes

Yn ystod 2023-24, ffocws allweddol Grŵp Cynefin oedd cyflawni'r Cynllun Gwella Busnes, a gweithredu gofynion yr Ymgymriad Gwirfoddol, gan roi diweddariad am gynnydd i'r Rheoleiddiwr yn rheolaidd.

Roedd hefyd yn cynnwys trafodaethau agos gyda'n benthycwyr i roi gwybod iddynt am gynnydd, yr effaith bosibl ar gyfamodau, a gofynion benthyca yn y dyfodol.

Y sbardun ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gwella Busnes oedd sefydlu 5 ffrwd waith allweddol, sef;

- Cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch
- Gwydnwch a Hyfywedd Ariannol
- Llywodraethu
- Pobl a Diwylliant
- Ymgysylltu â Thenantiaid

Daethpwyd â staff interim arbenigol i'r busnes i helpu i yrru'r gwelliannau gofynnol yn eu blaen, ac adolygwyd systemau a gweithdrefnau.

Fel rhan o'r Ymrwymiad Gwirfoddol, cytunwyd i gynnal tri adolygiad strategol, sef i. Hyfywedd Ariannol, ii. Modelu Busnes, a iii) Llywodraethu. Gosodwyd y tri adolygiad ar lefel strategol, a chynhaliwyd hwy gan gwmni allanol (David Tolson Partnerships, sef DTP), yn dilyn proses dendro agored. Cwblhawyd yr adolygiadau, a chyflwynwyd adroddiadau ac argymhellion i'r Bwrdd ym mis Hydref 2023 (Hyfywedd Ariannol), ac Ionawr 2024 (Modelu Busnes a Llywodraethu).

Ym mis Ionawr 2024, ac yn dilyn gweithredu'r Cynllun Gwella Busnes, a'r rhan fwyaf o ofynion yr Ymrwymiad Gwirfoddol, ymgymerodd Grŵp Cynefin â phroses hunanwerthuso yn erbyn gofynion y safonau rheoleiddio. Arweiniodd y broses at ddyfarniad diwygiedig o gydymffurfio ('Melyn') o ran Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid, a Hyfywedd Ariannol ym mis Mai 2024.

Mae'r Ymrwymiad Gwirfoddol yn parhau hyd nes y byddwn yn cwblhau dau adolygiad strategol, ac yn gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio ohonynt, a'r ddau adolygiad yw i. Rheoli Risg yn arwain at ddatblygu Fframwaith

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Sicrwydd Bwrdd, ac ii) adolygiad o wasanaethau a phrosiectau 'Mwy na Thai' er mwyn darparu gwybodaeth i'r Bwrdd i hwyluso penderfyniadau busnes yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, bu newidiadau i'r Bwrdd Rheoli, lle daeth tymor 9 mlynedd rhai aelodau i ben, a safodd rhai i lawr. Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd dau Aelod Bwrdd eu cyfethol yn benodol am eu harbenigedd trysorlys, ariannol a llywodraethu, ac ym mis Medi, penodwyd Cadeirydd newydd yn dilyn ymgyrch recriwtio, dan arweiniad ymgynghorwyr allanol. Cafodd tri aelod ychwanegol o'r Bwrdd eu cyfethol ym mis Rhagfyr 2023, eto drwy ymgyrch recriwtio, ac ar ôl ystyried map sgiliau'r Bwrdd a'r Cynllun olyniaeth.

Ym mis Mai 2024, penodwyd y Prif Weithredwr parhaol, yn dilyn proses recriwtio agored a hwyluswyd gan ddarparwr allanol. Bydd yr uwch strwythur arweinyddiaeth yn cael ei recriwtio yn ystod 2024/25 a bydd yn cynnwys Cyfarwyddwr Pobl, Cyfarwyddwr Eiddo a Buddsoddiad, Cyfarwyddwr Cymdogaethau a Chyfarwyddwr Adnoddau.

### Nod 2: Cartrefi o Safon

Y ffocws allweddol yn ystod 2023-24 oedd gwella cofnodion data i roi sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch. Sefydlwyd amserlen a chytunwyd arni gyda'r Bwrdd a'r Rheoleiddiwr i sicrhau cydymffurfiaeth mewn meysydd allweddol gan gynnwys diogelwch tân, nwy, Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR), legionella, radon a lifftiau. Roedd adroddiadau cynnydd a pherfformiad misol ('Dangosfyrddau Cydymffurfiaeth') yn dangos gwelliannau parhaus tuag at gydymffurfio, a nodir isod. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.

Ffocws allweddol arall oedd cynnal rhaglen gynhwysfawr o gwblhau arolygon cyflwr eiddo o'n holl eiddo, gyda tharged o gyflawni 100% (erbyn diwedd Gorffennaf 2024). Mae 82% o'n stoc wedi'i arolygu, a'n system Rheoli Asedau wedi'i phoblogi ar ôl derbyn gwiriadau data sicrwydd ansawdd gan gwmni allanol. Rydym yn rhagweld na fydd tua 15% o eiddo yn cael eu harolygu oherwydd materion yn ymwneud â diffyg mynediad i rhai eiddo i gwblhau'r arolwg. Fodd bynnag, rydym yn rhagweithiol i reoli hyn gyda'n timau tai a chyfathrebu i sicrhau ein bod yn cael mynediad i gynifer o eiddo â phosib. Thoses Properties where gaining access to complete the surveys that continue to be problematic will form part of the initial tranche of an annual 20% rollong programme. Bydd eiddo dim mynediad yn rhan o raglen arolwg treigl blynyddol 20%.

Mae Grŵp Cynefin yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol tenantiaid a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Mae ganddo amrywiaeth o opsiynau tai ar gael, megis tai cymdeithasol gydag eiddo yn amrywio o fflatiau, byngalos ac amrywiaeth o eiddo o wahanol faint, llety gwarchod, cynlluniau gofal ychwanegol, a chartrefi fforddiadwy gydag amrywiol opsiynau rhanberchnogaeth gan gynnwys y cynllun Cymorth Prynu.

Mae'r estyniad i'r cynllun Gofal Ychwanegol yn Llys Awelon yn Rhuthun wedi ei gwblhau diwedd Awst 2024, sydd yn cynnwys 35 o unedau newydd.

Eleni, ychwanegodd Grŵp Cynefin 18 uned newydd i'w stoc, gwaredwyd 2 uned, gan ddod â chyfanswm yr unedau dan reolaeth i 4,255 (yn unol â nodyn 5 o'r cyfrifon), mae hefyd 760 o gartrefi rhent canolradd ychwanegol sydd heb eu cynnwys. o fewn y nodyn, gan ddod â'r chyfanswm i 5,015.

Mae'r 5,015 o unedau yn cynnwys y 4,238 o unedau ar rent sydd naill ai'n eiddo i Grŵp Cynefin neu'n cael eu prydlesu gan Bartneriaeth Tai Cymru, ond sydd hefyd yn cael eu rheoli gan Grŵp Cynefin; 760 o unedau marchnad ganolraddol (unedau 'Cymorth Prynu' a 'Rhanberchnogaeth') y mae gan Grŵp Cynefin ddiddordeb ynddynt, yn ogystal ag 17 o unedau sy'n eiddo Elusendai, ond a reolir gan Grŵp Cynefin.

Sicrhaodd Grŵp Cynefin grant cyllid Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (Optimised Retrofit Programme ORP) Llywodraeth Cymru o £1.4m yn 2022/23, gyda chyllid ychwanegol o £1.6m yn 2023/24 a £1.6m yn 2024/25. Prif themâu Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) yw: Cynhesrwydd Fforddiadwy, Datgarboneiddio a deall y llwybr gorau at well effeithlonrwydd ynni ar gyfer ein cartrefi a'n preswylwyr. Mae Grŵp Cynefin wedi penodi Cyd Innovation i gefnogi penodi prif gontractwr ar gyfer darparu Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) am 12 mis ac hefyd ar gyfer gwneud gwaith ôl-osod ar eiddo gan ddefnyddio cyllid ECO 4. Mae asesiadau eiddo yn parhau yn rheolaidd, ac unwaith y bydd y gwaith ôl-osod (retrofit) wedi'i gwblhau, bydd y cyllid ar gael (yn ystod 24/25).

Mae angen cwblhau a gweithredu holl broses ariannu a gosod yr Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) erbyn 31 Mawrth 2025 yn unol â gwybodaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Penododd Grŵp Cynefin ddwy rôl newydd, sef y Rheolwr Ynni ac Ôl-osod a'r Rheolwr Prosiect sy'n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r rhaglen. Yn ystod 2023-24:

- **Wal-Lag yw ein contractwr penodedig ar y cynllun hwn ac rydym wedi cwblhau 20 o osodiadau ôl-osod gyda mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n cynnwys PV solar, systemau gwresogi ffynhonnell aer ac inswleiddio.**
- **Mae gennym ni 9 dyddiad gosod pellach wedi'u cadarnhau**
- **Mae 6 eiddo ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn 'waith ar y gweill' – ar y safle ar hyn o bryd, sgaffald yn ei le, inswleiddio/paratoi gosod.**
- **Mae gennym 15 eiddo yn aros am gadarnhad am ddyddiadau gosod.**
- **Rhaid cwblhau'r cynllun Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) erbyn 31 Mawrth 2025 yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw y bydd tua 150 o'n heiddo wedi derbyn y mesurau hyn erbyn y dyddiad hwn.**

Sicrhodd Grŵp Cynefin hefyd grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (Transitional Accommodation Capital Programme TACP) Llywodraeth Cymru o £1.2m. Mae'r rhaglen grant wedi'i rhoi ar waith i gefnogi capasiti tai, i geisio adnewyddu ac ailfodelu eiddo gwag i gefnogi'r galw. Mae'r grant yn amodol ar ddefnyddio'r eiddo i gefnogi symud pobl o eiddo dros dro, ac fel ymateb i argyfwng Wcraïn. Bydd y grant yn cynorthwyo gydag adnewyddu 22 eiddo gyda Grŵp Cynefin yn cyfrannu £346k tuag at y costau adnewyddu. Cafwyd cyllid hefyd i brynu eiddo fel rhan o'r rhaglen.

### Nod 3: Gwasanaethau Rhagorol

Mae Grŵp Cynefin yn cynnig amrediad o wasanaethau cymorth i denantiaid, fel y Tîm Tai a'r Tîm Lles i gefnogi tenantiaid i gynnal eu tenantiaeth, ac ein gwasanaethau Gorwel sy'n darparu gwasanaethau i ymdrin â cham-drin domestig a chymorth gyda digartrefedd.

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid (a gymeradwywyd ym mis Medi 2022) a'r Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig (a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2023) yn darparu gwasanaethau ychwanegol i'n tenantiaid a'r gymuned ehangach, fel y Wardeiniaid Ynni sy'n rhannu'r arferion gorau a'r prisiau gorau o ran costau a defnyddio ynni a phrosiectau adfywio cymunedol penodol dan 'Mwy na Thai.' Comisiynodd Grŵp Cynefin TPAS Cymru i gynnal 'Asesiad Safonau Ymgysylltu â Thenantiaid' yn erbyn y gofynion rheoleiddio yn ystod 2022/23, gyda'r argymhellion yn cael eu cynnwys yn y ffrwd gwaith Cyfranogiad Tenantiaid a sefydlwyd yn unol â chyflawni'r Ymrwymiad Gwirfoddol. Cafodd y Ffrwd Waith Ymgysylltu â Thenantiaid, Cynllun Gweithredu TESA a'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Thenantiaid eu cyfuno a'u cyflwyno i'r Grŵp Gweithredu Tenantiaid ym mis Rhagfyr 2023. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Tenantiaid newydd a gyfarfu ym mis Ionawr a Chwefror 2024 i gyd-gynllunio Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2024/25.

Mae'r Strategaeth Trawsnewid Digidol wedi cyflwyno systemau newydd i'n tenantiaid, fel y porth tenantiaid 'Ap Cynefin' i denantiaid gael gwybodaeth yn haws ac yn gyflymach, a chyfleuster 'sgwrsio' newydd drwy gyfrwng ein gwefan newydd a lanswyd ym mis Ebrill 2022. Roedd y wybodaeth perfformiad yn 2023/24 fel a ganlyn:

- |  |        |
|--|--------|
| • <i>Nifer y galwadau a dderbyniwyd</i>              | 37,338 |
| • <i>% cyfradd ateb galwadau</i>                     | 88%    |
| • <i>Galwadau a atebwyd cyn pen 60 eiliad</i>        | 63%    |
| • <i>Nifer y sgwrsiau byw</i>                        | 840    |
| • <i>Nifer y negeseuon e-bost i post@Grwpcynefin</i> | 12,228 |

Mae nod strategol a osodwyd ar gyfer 2024-25 wedi'i osod i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer Strategaeth Ddigidol Trawsnewid Grŵp newydd, a byddwn yn comisiynu darparwr allanol i hwyluso'r gwaith hwn.

Ym mis Hydref 2023 cymerodd tenantiaid ran yn arolwg boddhad safonol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2024.

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Dyma rai o'r canfyddiadau allweddol:

Pa mor fodlon ydych chi efo'r gwasanaeth a ddarperir?	81%
Pa mor fodlon ydych chi gydag ansawdd cyffredinol eich cartref?	70%
Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi efo'r modd y mae Grŵp Cynefin yn delio â gwaith trwsio a chynnal a chadw?	73%
Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch cymdogaeth fel lle i fyw?	81%
Pa mor fodlon ydych chi fod eich rhent yn rhoi gwerth am arian?	79%
Pa mor fodlon ydych chi fod y tâl gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian?	42%
Pa mor fodlon ydych chi fod Grŵp Cynefin yn gwrando ar eich safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt?	61%
Gan feddwl am eich cartref yn benodol, pa mor fodlon ydych chi bod eich cartref yn saff a diogel?	86%
Pa mor fodlon ydych chi efo'r ffordd y mae Grŵp Cynefin yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	12%
Pa mor fodlon ydych chi gyda'r cyfleodd sy'n cael eu rhoi i chi gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau?	56%
Pa mor fodlon ydych chi fod Grŵp Cynefin yn rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud am y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu rheoli?	56%
I ba raddau ydych chi'n cytuno efo'r datganiad "Rwy'n ymddiried yn Grŵp Cynefin".	77%

**Rydym wedi gosod nod strategol ar gyfer 2024-25 i adolygu'r Arolwg Bodlonrwydd Tenantiaid, ac yn ystod 2025-26, byddwn yn cynnal arolwg boddhad cynhwysfawr (yn seiliedig ar egwyddorion STAR) er mwyn darparu darlun clir o foddhad tenantiaid.**

Dyfarwyd achrediad 'Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid' i Grŵp Cynefin (mewn pedair elfen gan gyrraedd y safon 'Cydydffurfiaeth a Mwy') yn unol â gofynion Safonau Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid Swyddfa'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2021, a adolygir yn flynyddol. Cyflawnwyd yr achrediad eto ym mis Gorffennaf 2023, gydag adolygiad llawn wedi ei ohirio tan 2025.

***Dangosyddion Perfformiad Allweddol trwsio a gwella cartrefi:***

	2024	2023
Gwaith trwsio a gwblhawyd yn yr amser targed	82%	84%
Gwaith brys a gwblhawyd cyn pen 24 awr	99%	99%

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd lefel cydymffurfio Diogelwch Nwy Grŵp Cynefin yn 100%.

***Gosod a rheoli eiddo:***

Gosodwyd 242 o eiddo yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024, gyda 18 yn osodiadau newydd a 224 yn ail-osodiadau.

Mae nifer yr ailosodiadau wedi gostwng ychydig eleni o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, roedd hyn i'w ddisgwyl, wrth i ni adolygu ein proses gaffael i sicrhau gwell gwerth am arian. Yn dilyn yr adolygiad hwn a'r rhaglen Rhaglen Ariannu Grant Cyfalaf Llety Trosiannol (TACP) weithredol sydd ar waith, disgwylir y bydd nifer yr ailosodiadau yn cynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd y colled incwm oherwydd eiddo gwag ar ddiwedd mis Mawrth yn £377,894. Wrth gymharu hyn â'r flwyddyn flaenorol roedd y ffigur yn £321,902. Mae'r Gymdeithas wedi llwyddo i gael grant Rhaglen Ariannu Grant Cyfalaf Llety Trosiannol (TACP) i wella nifer yr eiddo gwag a lleihau'r incwm a gollir yn erbyn eiddo gwag tymor hir. Fe wnaethom hefyd gynnal adolygiad proses 'LEAN' mewnol gyda'r nod o wella ein proses eiddo gwag, a ddylai gyfrannu'n gadarnhaol at drawsnewid eiddo yn gyflymach, gan arwain at golli llai o rent wrth symud ymlaen.



## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

	2024	2023
ôl-ddyledion fel % o'r rhent casgladwy (ar ddiwedd y flwyddyn)	2.69%	2.59%
Colled rhent – eiddo gwag fel % o'r rhent casgladwy (yn ystod y flwyddyn)	1.74%	1.45%
Nifer y dyddiau i osod eiddo (yn cynnwys ail-osod ac eiddo newydd) (cyfartaledd yn ystod y flwyddyn)	47	23
Nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y flwyddyn: Mae'r achosion hyn yn amrywio o achosion categori un, sy'n cynnwys ymddygiad bygythiol ac ymosodiadau, i categori tri a fyddai'n cynnwys niwsans swm, gerddi blêr ac ati	443	364

\*Mae'r penderfyniad i adolygu'r broses gaffael i sicrhau mwy o werth am arian wedi effeithio ar nifer y dyddiau a gymerwyd i ailosod ein heiddo ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, bydd caffael trwy system fframweithiau wrth symud ymlaen yn arwain at arbedion effeithlonrwydd yn gyffredinol

**Nod 4: Gwella Bywydau**

Gweledigaeth Grŵp Cynefin yw 'Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau a chymunedau' ac mae'n darparu ac yn rheoli nifer o fentrau sy'n galluogi pobl ag amrywiaeth o anghenion i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel.

Mae'r Tîm Lles wedi cynorthwyo cyfanswm o 491 o denantiaid dros y flwyddyn, gyda 1,958 o achosion newydd wedi'u hagor ar gyfer gwahanol elfennau i'r tenantiaid. Sicrhawyd cyfanswm enillion parhaus o £1,637,488.40, sef £3,335.01 ar gyfartaledd i bob tenant a welwyd gan y Tîm. Mae hyn yn gynydd o £393,984 ar ffigurau'r llynedd.

Rhoddodd y Gymdeithas gymorth i 20 o denantiaid i sicrhau cyflogaeth a datblygu eu sgiliau, a dyfarnwyd cyfanswm o £2k mewn 'Grantiau Camau i Gyflogaeth' yn ystod y flwyddyn i 11 o unigolion. Daeth y Tîm Mentrau Cymunedol yn ail yng ngwobrau TPAS ym mis Gorffennaf 2022 am y rhaglen 'Camau i Gyflogaeth.'

Yn ystod 2023/024, fe wnaeth ein is-gwmnïau Canllaw (Eryri) cyf (Gwynedd a Môn) a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych gynorthwyo 10,316 o gleientiaid trwy gwblhau gwelliannau i'r cartref, atgyweiriadau neu addasiadau gwerth dros £1.8m. Fe wnaethant helpu i gynyddu incwm eu cleientiaid drwy dderbyn budd-daliadau lles gwerth dros £2.5m. Yn gyffredinol, roedd cyfradd boddhad cleientiaid ar gyfer eu gwasanaethau yn 96% gyda 97% yn nodi y byddent yn argymhell eu gwasanaethau i eraill.

Mae Gorwel yn cynnig trawstoriad o gynlluniau o ran cefnogi plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn. Ar gyfartaledd mae'n cefnogi rhwng 750 a 800 o bobl yr wythnos, ac mae ganddo 62 aelod o staff sy'n cyfateb i staff llawn amser. Mae grantiau yn ffurfio 80% o incwm Gorwel.

Derbyniodd Gorwel gadarnhad ym mis Gorffennaf 2023 eu bod wedi bodloni'r gofynion achrediad 'Leading Lights,' ar gyfer ei rhaglen IDVA (Independent Domestic Violence Advisor), rhaglen sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo ymarfer da a diogel mewn gwasanaethau cam-drin domestig yn y gymuned ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen yn cynnig set o safonau i wasanaethau, asiantaethau partner a chomisiynwyr ym maes cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig drwy ymateb dan arweiniad risg ac fe'i dyluniwyd i sicrhau bod goroeswyr cam-drin domestig yn derbyn yr un lefel gwasanaeth, waeth lle maent yn y wlad. Ar ôl diwedd y flwyddyn, ac yn dilyn trafodaethau agos gyda'r comisiynydd, trosglwyddwyd y gwasanaeth IDVA i ddarparwr allanol.

Cymeradwywyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd Grŵp Cynefin gan y Bwrdd Rheoli ym mis Gorffennaf 2023, gydag adnoddau ychwanegol wedi'u cyfeirio at gyflawni'r camau y cytunwyd arnynt yn ystod 2024/25.

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

### Nod 5: Cynnal Cymunedau

Mae gan Grŵp Cynefin ystod o wasanaethau a phrosiectau sy'n cefnogi ac yn adfywio'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, ac sy'n egluro pwrpas 'Mwy na Thai' (gweler mwy o fanylion isod ar dudalen 11 and 12).

Enghraifft o weithio mewn partneriaeth i fod yn gatalydd newid cadarnhaol yw prosiect Dwyfor, yn gweithio gyda chynllun peilot tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru yn Nwyfor i chwilio am ddatrysiadau i'r argyfwng tai mewn ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith. *Mae'r prosiect tair blynedd hwn yn gyfrifol am greu prosiectau tai cydweithredol tebyg i ymddiriedolaeth gymunedol, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill a Chyngor Gwynedd i geisio diwallu anghenion tai lleol yr ardal a hyrwyddo tai a arweinir gan y gymuned fel ateb posibl. Mae rhai o'r cerrig milltir allweddol ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys:*

- Edrych ar y rhwystrau sy'n wynebu Cymdeithasau Tai sydd am ddatblygu mewn ardaloedd gwledig ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at faterion allweddol. Mae Grŵp Cynefin ar hyn o bryd yn bwriadu cymryd 4 safle ymlaen yn ardal Dwyfor gyda safle ychwanegol o bosib yn derbyn cymorth ariannol ychwanegol trwy Lywodraeth Cymru.
- Cynorthwyo i hyrwyddo Cynllun Cymorth Prynu Cyngor Gwynedd sydd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru oherwydd y Cynllun Peilot. Gweinyddir y cynllun gan Tai Teg a chafodd ei hyrwyddo trwy gynnal sesiynau gwybodaeth gyda chynghorwyr lleol, cynghorau cymuned, Gwerthwyr Tai ac yn ystod diwrnodau agored amrywiol a digwyddiadau tai. Mae'r cynllun yn cynorthwyo unigolion i brynu eiddo yn eu hardal leol gan ddefnyddio benthyciad di-log.
- Cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru am Gynllun Adnau ar ran Partneriaid y Cynllun Peilot (Grŵp Cynefin, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Adra). Mae'r cynllun wedi'i ddylunio'n debyg i'r Cynllun Cymorth Prynu i gynorthwyo'r rhai sydd angen blaendal i brynu eiddo. Disgwyliwn dderbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Cynorthwyo Cymunedau yn ardal Dwyfor sy'n dymuno prynu tai a'u rhentu allan i aelodau'r gymuned. Rydym wedi cynnal Diwrnod Agored Tai a Arweinir gan y Gymuned gyda phartneriaid amrywiol megis Cwmpas a'r Hwyluswyr Tai Gwledig – roedd hyn yn galluogi grwpiau yn yr ardal i rwydweithio (mae'r Hwyluswyr Tai Gwledig wedi cynnal 4 asesiad anghenion tai cymunedol yn ardal Dwyfor hyd yma) . Rhoddwyd cymorth hefyd i dri grŵp cymunedol oedd angen cyllid i barhau â'u prosiectau, gyda'r Cynllun Peilot yn gallu cydlynu a chynorthwyo gyda ffrydiau ariannu.

Mae Grŵp Cynefin wedi darparu tai diogel, fforddiadwy, ansawdd uchel i dros 8,000 o bobl yn holl siroedd gogledd Cymru a gogledd Powys ers ei sefydlu yn 2014. Mae darparu tai a gwasanaethau rhagorol yn cyfrannu at ddatblygiad cymunedau cynaliadwy tra'n gwarchod a hybu'r Gymraeg, un o gonglfeini'r gymdeithas dai.

Grŵp Cynefin sy'n gyfrifol am weinyddu'r gofrestr Tai Teg hefyd, sef y Gofrestr Tai Fforddiadwy, ar ran cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a Pharc Cenedlaethol Eryri sy'n cynnig gwahanol opsiynau o ran unedau fforddiadwy, p'un a yw'n cael ei rentu (rhent canolradd), neu'n bryniant â chymorth trwy Rentu i Berchnogi neu eiddo Rhanberchnogaeth.

Cyfanswm nifer yr unedau a enwebwyd drwy gyfrwng Tai Teg hyd yma:

Blwyddyn	Nifer yr unedau
2018.2019	200
2019.2020	300
2020.2021	352
2021.2022	542
2022.2023	367
2023.2024	414
Cyfanswm	2,175

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Mae Grŵp Cynefin yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Theatr Bara Caws a rhanddeiliaid lleol i arwain at ddatblygu Prosiect Iechyd a Llesiant i Benygroes a Dyffryn Nantlle – Canolfan Lleu. Yr egwyddorion craidd yw gweithio mewn partneriaethau cryfach i wella llesiant a gweithio tuag at gyd-gynhyrchu iechyd da, ac mae'n cynnwys ymrwymiad craidd i adeiladu amgylchedd llesiant newydd, gwell parth y cyhoedd i'r ardal a chynnig tai cynaliadwy wedi'i seilio ar anghenion lleol a nodwyd. Yn dilyn newid angenrheidiol i brif gynllun gwreiddiol y prosiect, a arweiniodd at oedi wrth ddatblygu'r cynllun ymhellach a'r angen i gynnal adolygiad dichonoldeb ar yr uwchgyllun newydd posibl. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hasesu ar hyn o bryd ar eu fforddiadwyedd yn erbyn y grantiau sydd wedi'u hadnabod hyd yma ar gyfer y prosiect.

Yn ystod 2024/25 bydd adolygiad annibynnol yn cael ei gomisiynu i adolygu holl brosiectau a gwasanaethau 'Mwy na Thai' Grŵp Cynefin. Mae 'Mwy na Thai' yn derm cyffredinol sy'n grwpio nifer o wasanaethau, prosiectau ac asedau a weinyddir ac a reolir gan Grŵp Cynefin. Maent yn amrywiol eu natur ac yn 'ychwanegol' at ein gwasanaethau landlordiaid craidd. Mae'r adolygiad mewn ymateb i argymhelliaid yn deillio o'r adolygiad 'Modelu Busnes' a gynhaliwyd fel rhan o'r Ymrwymiad Gwirfoddol i lywio cyfeiriad strategol yn y dyfodol.

### Nod 6: Twf Cadarn a Chynaliadwy

Adroddodd Grŵp Cynefin i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Llywodraethu ym mis Mehefin 2023 ei fod yn bodloni 82% o ofynion Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru, gyda rhai meysydd i'w gwella a'u cryfhau. Cynhwyswyd y gweithredoedd hynny yn y Cynllun Gwella Llywodraethu i weithio tuag at gydymffurfio'n llwyr. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd, cynhaliwyd adolygiad llywodraethu cynhwysfawr gan ddarparu'r allanol, a chymeradwywyd yr adroddiad a'r argymhellion gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2024. Cafodd yr argymhellion eu bwydo i mewn i Gynllun Gwella Llywodraethu diwygiedig, ac adroddwyd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Llywodraethu bod cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn dda, gyda 33% wedi'u gweithredu.

Cynhaliwyd adolygiad o'r achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP) hefyd yn Hydref 2022, pan enillodd Grŵp Cynefin y 'Wobr Arian'. Dyma'r trydydd asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP) ar gyfer Grŵp Cynefin, a ddaeth ar adeg eithriadol o heriol i'r mudiad, h.y. ar ôl cofid, cyd-destun o ansicrwydd/costau byw/materion iechyd meddwl dilynol, a phrinder staff mewn meysydd allweddol.

Yn ystod 2023-24, penodwyd ymgynghorydd allanol i gynnal adolygiad annibynnol o gyflogau a buddion y farchnad ar gyfer pob swydd o fewn Grŵp Cynefin. Roedd yr adolygiad tâl yn seiliedig ar gyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024. Pwrpas yr adolygiad oedd rhoi arweiniad priodol a pherthnasol a data marchnad i Grŵp Cynefin er mwyn cymharu'r lefel bresennol o gyflog a gwobr a thrwy hynny alluogi'r sefydliad i wneud penderfyniadau gwybodus ac argymhellion ynglŷn â'r pecyn tâl a thelerau ac amodau ar gyfer holl ddeiliaid y swydd. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Llywodraethu ym mis Ionawr 2024.

Cymeradwywyd 'Strategaeth a Chynllun Pobl 2024-2027' newydd hefyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2024, a oedd yn nod strategol. Mae datblygu'r strategaeth a'r cynllun newydd hwn yn allweddol i gyflawni 'Arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol (sgiliau / profiad / gwerthuso gallu)', a oedd yn un o ofynion yr Ymrwymiad Gwirfoddol. Fe'i datblygwyd hefyd i adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hymrwymiad parhaus i Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP). Mae'n strategaeth a chynllun uchelgeisiol sydd wedi'u rhannu'n dri maes ffocws allweddol, sef 'Y ffordd rydym yn gwneud pethau', 'Sut rydym yn gwneud pethau', a 'Cyflawni pethau'.

### PRIF WEITHGAREDDAU GRŴP CYNEFIN

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig mae Grŵp Cynefin yn:

- Rheoli mwy na 5,000 o gartrefi ar draws Gogledd Cymru a gogledd Powys.
- Darparu gwasanaethau landlord trwy rwydwaith o swyddfeydd lleol yn y Bala, Dinbych, Llangefni a Phen-y-groes
- Annog tenantiaid i ddylanwadu ar berfformiad a gwella'r gwasanaethau a dderbynnir ganddyn nhw a'u cymunedau
- Datblygu cartrefi o bob math mewn ymateb i anghenion lleol; ar gyfer teuluoedd, pobl sengl, pobl hŷn ac unigolion bregus ag anghenion cefnogaeth
- Yn ystod 2023/24 buddsoddodd Grŵp Cynefin dros £7.7m (2023 - £7.3m) yn ei stoc tai. Roedd hyn yn

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

cynnwys buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw arferol, gwaith wedi'i gynllunio, archwilio a chynnal a chadw.


- Dros gyfnod tair blynedd y Cynllun Corfforaethol, mae cyfanswm o 208 o unedau wedi eu cwblhau, yn erbyn targed o 358. Cymeradwyodd y Bwrdd i oedi unrhyw ymrwymiadau datblygu newydd yn ystod y flwyddyn, fel y gellir canolbwyntio adnoddau i ymdrin â gofynion yr ymrwymiad gwirfoddol.
- Meddu ar fuddiant yn neu'n rhan-berchen eiddo neu wedi hwyluso bron i 1000 o gartrefi marchnad ganolraddol ar gyfer pobl na fedrant brynu cartref addas ar y farchnad agored
- Gweinyddu Cofrestrï Tai Fforddiadwy ar gyfer y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru
- Cefnogi Hwyluswyr Tai Gwledig sy'n cefnogi ymdrechion cymunedau i gynyddu'r cyflenwad tai ar gyfer pobl leol
- Buddsoddi ym Mhartneriaeth Tai Cymru (menter ar y cyd gyda thri grŵp tai arall), sydd wedi darparu bron i 2,000 o gartrefi rhent canolraddol ychwanegol ers ei ffurfio yn 2011. Cyfanswm stoc Grŵp Cynefin yn PTC yw 142.

Fel grŵp o fusnesau cymdeithasol mae Grŵp Cynefin hefyd yn darparu 'Mwy na Thai' drwy gyfrwng:

- Rheoli dwy asiantaeth Gofal a Thrsio trwy ddau is-gwmni (Canllaw (Eryri) Cyf a Gofal a Thrsio Conwy a Sir Ddinbych) sy'n gwneud addasiadau hanfodol i gartrefi pobl hŷn a phobl ag anableddau
- Darparu gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar dai trwy gyfrwng Gorwel, uned fusnes mewnol Grŵp Cynefin, sy'n galluogi unigolion a theuluoedd i fyw'n annibynnol; yn cynnwys dioddefwyr cam-drin domestig, pobl ddigartref, pobl hŷn a phobl ag anghenion cefnogaeth iechyd meddwl
- Rheoli'r prosiect cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol Wardeiniaid Ynni Cymunedol sydd bellach yn gweithredu ar draws Gogledd Cymru a Phowys
- Rheoli Canolfan Fenter Congl Meinciau ym Mhenrhyn Llŷn, Gwynedd
- Rheoli canolfan fenter ieuencid HWB Dinbych yn Ninbych
- Rheoli menter 'Y Shed' yng Ngallt Melyd, menter sydd wedi trawsnewid hen adeilad rheilffordd gwag yn ganolfan gyda siop, caffi, gwybodaeth am y dreftadaeth leol, ac unedau busnes.
- Gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol dwy elusen elusendai, Elusen Elizabeth Owen, Llanfair DC a Thai Ellen Glynne, Llandwrog.


Mae Grŵp Cynefin yn un o'r ychydig gymdeithasau tai yng Nghymru sy'n cynnal ei fusnes mewnol yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n hynod o falch o'r nodwedd unigryw hwn.

**Graff 1: Stoc Tai @ 31/03/24 – Yn ôl math o eiddo**



## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Graff 2: Stoc Tai @ 31/03/24 – Yn ôl Awdurdod Lleol



## Materion Ariannol a Thrysorlys

Mae Grŵp Cynefin wedi mabwysiadu Polisi Rheoli Trysorlys cadarn ac mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Strategaeth Trysorlys yn flynyddol. Cyflwynir adroddiadau trysorlys chwarterol i'r Pwyllgor Cyllid a Thwf sy'n dangos bod Grŵp Cynefin yn cydymffurfio'n barhaus â'i Bolisi Rheoli Trysorlys. Cymeradwywyd adolygiad o Bolisi Rheoli'r Trysorlys gan y Bwrdd Rheoli ym mis Mai 2024.

Yn y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024 mae portffolio benthyciadau Grŵp Cynefin yn dangos fod gan y Gymdeithas fenthyciadau gwerth £130m gydag oddeutu 90% o'r rhain ar gytundeb cyfradd llog sefydlog. Mae hyn yn uwch na'r isafswm o 60% yn mholisi Rheoli Trysorlys Grŵp Cynefin.. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan Grŵp Cynefin hylifedd digonol yn ei le am oddeutu 24 mis. Ar ôl diwedd y flwyddyn, mae Grŵp Cynefin wedi sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi Cynllun Busnes 2023-2052.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru cynhelir profion straen cynhwysfawr y rhagfynegiadau ariannol 30 mlynedd yn flynyddol gyda'r Bwrdd Rheoli, a thrafodir strategaethau lliniaru potensial.

Cafodd Dyfarniad Rheoleiddio Grŵp Cynefin ei ddiwygio a'i ddiweddarau i 'Cydymffurfio Melyn' ar gyfer Hyfywedd Ariannol ym mis Mai 2024. Mae'r costau eithriadol a dynnir o fewn y flwyddyn wedi'u heithrio o gyfamod EBITDA-MRI gyda dau o'n benthycwyr ac fe'i manylir yn Nodyn 30.

Ar ôl diwedd y flwyddyn, mae Grŵp Cynefin wedi ail-ariannu i gefnogi Cynllun Busnes 2023-2052, ac mae strategaeth trysorlys yn ei lle ar gyfer cyfleusterau ariannu pellach i fod yn eu lle yn ystod 2024-25 yn dilyn y dyfarniad rheoleiddio lwyddiannus.

Roedd trosiant y Grŵp yn y flwyddyn yn £35m (2023- £33m) gyda £25m (2022 - £24m) yn dod o incwm rhent a thâl gwasanaeth. Roedd gwarged y Grŵp am y flwyddyn yn £1.3m (2023 - £1.7m) ac yn dilyn yr addasiad pensiwn buddiant diffiniedig a oedd yn ofynnol yn ystod y flwyddyn yn dangos colledion actiwaraidd o £1.2m (2023 – colled o £1m), roedd y cronfeydd referniw yn £32.7m (2023 - £32.5m) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn ystyried hyn yn ganlyniad cadarnhaol am y flwyddyn. Roedd gwerth llyfr net y stoc tai yn £327m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (2023 - £312m).

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

### Perfformiad Cyffredinol

Parhaodd rhoi cymorth a chefnogaeth i'n tenantiaid yn flaenoriaeth uchel i Grŵp Cynefin yn 2023-24. Roedd y perfformiad ôl-ddyledion rhent yn 2.69% (2.59% 22/23) yn erbyn targed o 2.50% (2.50% 22/23) fel y pennwyd gan y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau. Mae hyn yn cyfateb i ôl-ddyledion o £977k o gymharu â chyfanswm y rhent a gasglwyd o £23,270,129.

Mae 1462 (38%) (cynnydd o 1% ers y llynedd) o denantiaid bellach yn derbyn Credyd Cynhwysol. Mae Grŵp Cynefin yn derbyn taliadau uniongyrchol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer 627 (43%) o'r tenantiaid hyn.

Gosododd Grŵp Cynefin nod strategol ar gyfer 2024-25 i gynyddu'r cronfeydd caledi i denantiaid o £75k, a bydd yn darparu adroddiad i'r Bwrdd ar sut y defnyddiwyd y gronfa. Mae hyn yn gynydd o £50k o gymharu â 2022-23 (25k).

### Environmental, Social, Governance (ESG) Performance

Cynhyrchodd Grŵp Cynefin ei Dystysgrif Cydymffurfio â'r meini prawf Perfformiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu dan ddarpariaethau ei gytundebau benthyca, a oedd yn dangos ei berfformiad ar 31 Mawrth 2024 yn erbyn y tri targed perfformiad a bennwyd, sef:

- i. Roedd Perfformiad Ynni eiddo newydd yn Gyfartalog, 101 Tystysgrif Perfformiad Ynni (yn erbyn targed o 86) ac
- ii. Roedd meini prawf Perfformiad Ynni y stoc a oedd yn bodoli eisoes yn Gyfartalog, 70 Tystysgrif Perfformiad Ynni (yn erbyn tared o 70); a
- iii. 36 o bobl (a oedd, yn union cyn hynny, yn ddi-waith) yn cael cymorth tuag at waith cyflogedig, neu waith hunangyflogedig (yn erbyn targed o 36).

Yn ogystal â'r 36 o unigolion a gefnogir uchod, mae Grŵp Cynefin hefyd wedi darparu Hyfforddiant Galwedigaethol i 69 o unigolion ac wedi cefnogi 27 o denantiaid i wneud gwaith gwirfoddol.

### Yr Amgylchedd Gweithredu

Fel cymdeithas dai, mae Grŵp Cynefin yn parhau i weithredu o fewn amgylchedd cymhleth gyda heriau a gofynion cyfnewidiol yn wleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac yn amgylcheddol

Bu 2023-24 yn flwyddyn heriol arall eto, gyda chostau busnes cynyddol oherwydd costau deunyddiau adeiladu a llafur cynyddol, costau cyfleustodau cynyddol a chyfraddau llog uwch trwy gydol y flwyddyn. Daeth Polisi Gosod Rhent Cymdeithasol newydd yn weithredol ar 1 Ebrill 2022 ac fe'i datblygwyd yn unol â pholisi rhenti cymdeithasol Llywodraeth Cymru 2020 – 2025. Nod y polisi oedd gwella'r mesurau fforddiadwyedd ar gyfer preswylwyr tai cymdeithasol presennol ac yn y dyfodol drwy ddangos bod ein cartrefi a'n gwasanaethau'n cynrychioli gwerth am arian tra'n sicrhau bod ein heiddo'n parhau'n gynaliadwy yn y tymor hir. Fodd bynnag, o dan ofynion y Ddeddf, gwelwyd y sector yn cael ei dal mewn rhwymedigaethau cyfreithiol ynghylch rhoi tystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR)/ Tystysgrif Gosod Trydan (EIC) i denantiaid, ac yn benodol, mewn cysylltiad â'i ardaloedd cymunedol. Derbyniodd Grŵp Cynefin gyngor cyfreithiol mewn perthynas â manau cymunedol ond er mwyn osgoi diffyg cydymffurfio sicrhawyd bod y tystysgrifau yn cael eu darparu. Mae nifer o brosesau gweithredol ychwanegol wedi'u rhoi ar waith i osgoi unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol.

Mae'r angen yn parhau am dai fforddiadwy o ansawdd da, yn fwy felly mewn rhai lleoliadau gwledig yng Nghymru oherwydd yr argyfwng tai, a'r ffyniant ail gartrefi. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd yn ystod tymor 5 mlynedd y Senedd, hyd at 2026.

Mae adferiad araf yn dod ar ôl yr argyfwng costau byw ond mae cost hanfodion sylfaenol yn parhau i fod yn uchel, er gwaethaf y ffaith bod y gyfradd chwyddiant flynyddol wedi gostwng i 2.3% ar gyfer Ebrill 2024 ar ôl cyrraedd 11.1% ym mis Hydref 2022, sef y lefel uchaf am 41 mlynedd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae prisiau bywd wedi codi 22.5%, sef yr un cynnydd â'r deuddeg mlynedd flaenorol ac mae safonau byw felly wedi aros yn eu hunfan gyda'r incwm nodweddiadol yn tyfu ar gyfartaledd dim ond £140 ers 2010. O wybodaeth a gafwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru:

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

- Derbyniodd bron i 7,500 o denantiaid gymorth gan gymdeithasau tai Ionawr-Mawrth 2024, gyda 35,000 o denantiaid yn cael cymorth ers Ionawr 2023
- Llwyddodd Cymdeithasau Tai i uchafu incwm tenantiaid o dros £17.4m rhwng Gorffennaf 2023 a Mawrth 2024. Fel y soniwyd eisoes (tudalen 9), darparodd Tîm Lles Grŵp Cynefin gyfanswm enillion parhaus o £1,637,488.40 yn ystod 2023-24.
- Mae 95% o gymdeithasau tai yn cynnig cronfeydd caledi, ac rydym wedi datgan yn flaenorol bod Grŵp Cynefin wedi cynyddu ei gronfa i £75k am 2024/25.

Ym mis Gorffennaf 2024, gwelodd yr Etholiad Cyffredinol y Blaid Lafur yn ennill gyda mwyafrif sylweddol, ac yng Nghymru, Llafur enillodd y nifer fwyaf o seddi eto (27), ac yna Plaid Cymru (4), a'r Democratiaid Rhyddfrydol (1 sedd), heb unrhyw seddi i y Ceidwadwyr. Gyda newyddion diweddar iawn am Brif Weinidog Cymru yn cyhoeddi ei ymddiswyddiad ar ôl i dri o'i weinidogion yn Llywodraeth Cymru a'i gynghorydd cyfreithiol alw arno i sefyll i lawr yn eu datganiadau ymddiswyddiad. Penodwyd Eluned Morgan yn Brif Weinidog Cymru ar 6 Awst 2024, ac mae Julie Bryant wedi'i phenodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio yn dilyn ymddiswyddiad Julie James.

### Agenda Datgarboneiddio

Ym mis Mehefin 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru darged ar gyfer allyriadau carbon sero o dai hunan-berchnogaeth a rhentu preifat erbyn 2050, gyda'r sector tai cymdeithasol i gyrraedd y targed hwn erbyn 2030. Dilynwyd y datganiad gan yr adroddiad 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell' i'r Cynulliad gan y Grŵp Cynghori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru.

Fel y crybwyllwyd uchod, datblygodd Grŵp Cynefin Strategaeth Cynaliadwyedd ar gyfer y grŵp cyfan a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli ym mis Chwefror 2022. Penododd Grŵp Cynefin yr Ymddiriedolaeth Carbon i hwyluso'r gwaith hwn, a gwnaethant hwyluso sesiynau ymgynghori â'r staff, tenantiaid a'r Tîm Arweinyddiaeth. Cynhaliwyd gweithdai strategol ag aelodau'r Bwrdd Rheoli hefyd a chyflwynwyd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau er mwyn trafod y blaenoriaethau allweddol. Rydym wedi sicrhau cyllid grant o £4.9m dros 3 blynedd i fuddsoddi yn ein heiddo ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo dan arweiniad y Rheolwr Asedau sydd newydd ei benodi. Gyda strwythur Bwrdd a Grŵp Cynefin wedi'i adfywio, byddwn yn adolygu ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion a fydd yn cwmpasu gofynion ein strategaeth gynaliadwyedd. O hyn bydd dull Bwrdd Rhaglen yn cael ei sefydlu i gyflawni'r cynlluniau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion busnes.

### Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Mae Grŵp Cynefin wedi ymrwmo i ddarparu cartrefi o safon i'n tenantiaid ac rydym wedi cydnabod ers tro byd y rhan hanfodol y mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn ei chwarae wrth lywio ein hymdrechion. Cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) gan Lywodraeth Cymru yn 2002, ar ôl dod i'r amlwg mewn ymateb i'r angen dybryd i fynd i'r afael â chyflwr gwael llawer o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Sefydlodd fframwaith clir o feini prawf gyda'r nod o sicrhau y byddai'r holl dai cymdeithasol yn cyrraedd safonau derbyniol o ran ansawdd a chysur erbyn 2020.

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn cyd-fynd â'n cenhadaeth i wella amodau byw, gwella diogelwch, hybu effeithlonrwydd ynni, moderneiddio cyfleusterau, a chefnogi llesiant tenantiaid. Mae'r amcanion hyn yn sicrhau bod cartrefi'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn ddiogel, yn ynni-effeithlon, gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi modern, sy'n darparu ar gyfer anghenion penodol tenantiaid.

Mae ein hymrwymiad i gyrraedd a rhagori ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) wedi bod yn ddiwyro. Gyda chyhoeddiad safonau newydd Llywodraeth Cymru yn 2023, rydym yn gyffrous am gael croesawu'r diweddariadau hyn, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau esblygol megis cynaliadwyedd amgylcheddol ac anghenion newidiol ein tenantiaid, gan adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gan y safonau blaenorol. Mae agweddau newydd allweddol yn cynnwys;

1. Gwell Effeithlonrwydd Ynni

## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

2. Cysylltedd Digidol
3. Iechyd a Lles
4. Y gallu i addasu a Hygyrchedd
5. Diogelwch
6. Ymgysylltedd Preswylwyr

Ar hyn o bryd rydym yng nghanol asesiad stoc cyfan cynhwysfawr, sydd 82% wedi'i gwblhau. Mae'r asesiad hwn yn hanfodol ar gyfer nodi meysydd sydd angen eu gwella a sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r safonau newydd yn effeithiol. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno systemau newydd a gynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu llwybrau ynni targed, sy'n cyd-fynd â'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni. Bydd y mewnwleidiadau a geir o'r asesiad stoc hwn yn llywio ein cynlluniau busnes a buddsoddi 30 mlynedd newydd ac yn sefydlu cynllun rheoli asedau strategol newydd.

Daw'r safonau newydd i rym o 1 Ebrill 2024, ac ers 31 Mawrth, rydym yn falch o adrodd ein bod yn cydymffurfio 100% â'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), yn amodol ar fethiannau derbynol. Mae'r cyflawniad hwn yn amlgu ein hymrwymiad i gynnal safonau uchel ac i aros ar drywydd gwelliant parhaus. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i leihau methiannau derbynol drwy ddull strategol ac ymgysylltu gweithredol â thenantiaid wrth ddatblygu'r strategaeth newydd a chynllunio i fodloni'r safonau newydd.

### Iechyd a Diogelwch

Cynhaliodd Grŵp Cynefin adolygiad mewnol o reoli asedau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch landlord ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23, ym mis Mawrth 2023, gan ei bod yn amlwg nad oedd y cofnodion a'r prosesau cywir yn bodoli i ddarparu sicrwydd llawn ynghylch data cydymffurfio.

Buddsoddwyd yn helaeth a gwnaed cynnydd cynhwysfawr, yn cynnwys:

- Sefydlu Tîm Cydymffurfio interim arbenigol yn arbenigo ym meysydd diogelwch tân, asbestos, cynnal a chadw, dadansoddi data a rhaglen meddalwedd Technoleg Gwybodaeth arbenigol. Dros y flwyddyn, disodlwyd y tîm interim gan staff parhaol cymwys.
- Comisiynu arbenigwr allanol i gynnal arolygon cyflwr eiddo ar 100% o'r stoc tai erbyn diwedd mis Gorffennaf 2024 gydag 20% ychwanegol i'w gwblhau'n flynyddol wedi hynny.
- Comisiynu systemau meddalwedd arbenigol i reoli data am gyflwr y stoc, diogelwch tân ac asbestos ac i graffu ar dystysgrifau cydymffurfio
- Datblygu Dangosfwrdd Cydymffurfio newydd, a gyflwynir i'r Bwrdd a'r Rheoleiddiwr yn fisol.
- Datblygu a chwblhau rhaglen waith asbestos ar gyfer anheddau ac eiddo nad ydynt yn anheddau.
- Penodwyd Savills i gynnal Asesiad Risg Tân (Fire Risk Assessments FRAs) ym mhob un o'n mannau cymunedol o flociau o fflatiau a llety/tai a rennir.

### Diogelu a thrais domestig

Mae gan Grŵp Cynefin gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles tenantiaid a staff ac mae mewn sefyllfa dda i nodi materion cam-drin yng nghartref y teulu ac yn y gymuned ehangach, gyda gwybodaeth am anghenion lleol, ochr yn ochr â mynediad at wybodaeth am gyllid teulu, a mynediad i amgylcheddau cartref. Adolygwyd y Polisi Diogelu ym mis Chwefror 2020, ac mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd.

### Staff Grŵp Cynefin

Ar ddiwedd Mawrth 2024, roedd y dangosyddion allweddol perfformiad fel â ganlyn:

	2024	Reclassified 2023
Nifer o staff ar ddiwedd y flwyddyn	316	323
Cyfystyr â llawn amser	277	278



## ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Rhaniad rhwng cyflogeion benywaidd/gwrywaidd

89 Gwryw  
227 Benyw

90 Gwryw  
233 Benyw

Mae gan Grŵp Cynefin yn ei gyfanrwydd fwllch cyflog rhwng y rhywiau o 16.9% o'i gymharu â 12% i'r flwyddyn flaenorol, oherwydd cynnydd yn rolau'r gwasanaethau cymorth o fewn y flwyddyn. Mae bwlch cyflog o 0% yn y bandiau haen ganol hyd at yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae hyn oherwydd y ffaith bod nifer cyfartal o gydweithwyr gwrywaidd a benywaidd yn perfformio rolau sy'n denu cyflogau tebyg. Mae Grŵp Cynefin yn cydnabod bod rolau o fewn strwythur ein gwasanaethau cymorth yn cynyddu ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau oherwydd natur y rolau sy'n dominyddu menywod, fel sy'n wir am y sector. Mae Pwyllgor Llywodraethu a Thaliadau Grŵp Cynefin yn cydnabod yr angen i wella'r bwlch cyflog trwy ddenu mwy o ddyinion i'r rolau ategol hyn lle bo hynny'n bosibl.

Mae gan Grŵp Cynefin staff talentog a llawn cymhelliant sydd wedi ymrwmo i alluogi'r sefydliad i gyflawni amcanion ei Gynllun Corfforaethol, a darparu'r gwasanaethau gorau i'w gwsmeriaid.

### Dulliau o reoli risg a chwant am risg

Mae Grŵp Cynefin yn defnyddio dull 'tair llinell amddiffyn' i ymdrin â risg, gyda'r risgiau'n cael eu rheoli ar fforwm electronig er rhwyddineb monitro.

Mae'r prif risgiau'n cynnwys: diffyg hyfywedd ariannol, diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, methiant i ddarparu gwasanaethau effeithiol i denantiaid neu ddefnyddwyr gwasanaethau, methiant i gynnal busnes effeithiol a niwed i enw da'r sefydliad. Mae mesurau rheoli yn eu lle ar gyfer yr holl risgiau a nodwyd i liniaru neu reoli eu heffaith ar y Grŵp.

Mae Grŵp Cynefin yn adnabod y risgiau trysorlys elfennol sy'n ei wynebu, sy'n cynnwys risg hylifedd, risg credyd gwrth-bartïon, risg cyfradd llog a risg cyfreithiol/rheoleiddiol. Mae'r holl risgiau wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol, sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) reolaethau allweddol ar gyfer lliniaru fel a ganlyn:

- Polisi a threfniadau Rheoli Trysorlys cadarn, gyda'r Polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y Bwrdd
- Adroddiadau Rheoli Trysorlys rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Thwf
- Adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y 'rheolau aur'
- Adolygu cyfraddau credyd gwrth-bartïon yn rheolaidd
- Monitro wythnosol y perfformiad ôl-ddyledion rhent
